

Teitl: Title:	Polisi Addaswydd i Astudio Fitness to Study Policy
Fersiwn: Version	F1 V1
I bwy mae'r Polisi hwn yn berthnasol? Who does this Policy Relate to?	Myfyrwyr / Staff / Myfyrwyr a Staff / Arall (rhowch fanylion) Students

Cydraddoldeb ac Amrywiaeth / Equality & Diversity

Dolen at Gam 1 Asesu Effaith (ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg): / Impact Assessment Stage 1 (Equality & Welsh) link:	Fitness to Study Policy Welsh and E&D Impact Assessment Stage 1
<i>Effaith ar yr Iaith Gymraeg</i> <i>Mae asesiad effaith wedi'i gynnal ar y polisi hwn i ystyried ei effaith ar yr Iaith Gymraeg yn unol â Safonau'r Gymraeg (94-104) a Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011.</i>	<i>Welsh Language Impact</i> An impact assessment has been carried out on this policy to consider its effect on the Welsh Language in accordance with the Welsh Language Standards (94-104) and the Welsh Language (Wales) Measure 2011.

Adolygu a Chymeradwyo / Review and Approval

Perchennog y Ddogfen: Document Owner:	<i>Teitl swydd / Job title</i> Cath Sullivan, Dirprwy Brif Swyddog Gweithredol (Profiadau Pobl a Diwylliant) / Deputy Chief Executive Officer (People Experiences and Culture)		
Ymgynghoriad / Consultation:	<i>Rhestrwch nhw / Please list</i> Communications & Culture Committee		
Dyddiad cymeradwyo / Date Approved	Cymeradwyaeth y Pwyllgor Mewnol e.e. Grŵp Diogelu / Internal Committee Approval e.g. Safeguarding Group	<i>Enw'r Grŵp a'r Dyddiad / Name of group & date</i>	
	Pwyllgor Cyfathrebu a Diwylliant / Communications & Culture Committee:	14 Mehefin 2023 14th June 2023	
	Pwyllgorau'r Bwrdd / Board Committees:	Pwyllgor Archwilio a Risg / Audit & Risk Committee:	<i>Os yn berthnasol / If applicable</i>
		Pwyllgor Cwricwlwm a Safonau / Curriculum & Standards Committee	<i>Os yn berthnasol / If applicable</i>
		Pwyllgor Cyllid, Pobl a Diwylliant / Finance, People & Culture Committee:	<i>Os yn berthnasol / If applicable</i>
	Corff Llywodraethu / Governing Body:	<i>Os yn berthnasol / If applicable</i>	
Dyddiad Adolygu: Review Date:	Mehefin / June 2026		

Anfonwch y ddogfen wedi ei chymeradwyo i'w chyfieithu gan ddefnyddio'r [Ffurflen Cais Cyfieithu](#)
Send approved document for Translation using the [Translation Request Form](#)

Rhifwch bob adran a pharagraff
Please number each section and paragraph

Tabl Cynnwys

Polisi Addasrwydd i Astudio

1. Diben	3
2. Cwmpas	3
3. Prif Egwyddorion	4
4. Cyfrifoldebau	5
5. Gweithdrefn Addasrwydd i Astudio	5 - 8
6. Gwaharddiad yn ystod Aseiad Addasrwydd i Astudio	8
7. Hawl Apelio	9
8. Monitro ac Adolygu	9

Polisi Addasrwydd i Astudio

1. Diben

1.1 Mae'r coleg wedi ymrwymo i ddarparu cymorth academaidd, bugeiliol a lles unigol i ddysgwyr sy'n eu galluogi i wneud cynnydd ac adeiladu gwytnwch. Diben y Polisi a'r Weithdrefn hon a gweithdrefnau mewnol eraill yw darparu ymateb cefnogol a chydlynol i ymdrin â materion pan fo iechyd neu lesiant myfyriwr yn cael effaith niweidiol ar eu gallu (neu allu eraill) i symud ymlaen yn academaidd a/neu weithredu'n effeithiol yng nghymuned y coleg, a bod pob llwybr arall wedi'i ddefnyddio.

1.2 Dim ond mewn achosion eithriadol y dylid defnyddio'r polisi hwn i roi ymateb addas a chydlynol gan staff cymorth academaidd a phroffesiynol mewn amgylchiadau lle bo:

- Y sefyllfa yn cael ei hystyried yn frys; ac
- Nid yw gweithdrefnau mewnol eraill yn briodol
- Ac mae llwybrau eraill yn y coleg wedi cael eu defnyddio eisoes.

1.3 Os oes posibilrwydd o orgyffwrdd rhwng y weithdrefn hon a pholisïau eraill y coleg, mae'r coleg yn cadw'r hawl i wahardd camau gweithredu o dan y weithdrefn hon os yw'n ystyried y byddai'n fwy priodol ymdrin â'r mater o dan weithdrefn arall.

2. Cwmpas

2.1 Mae'r Polisi a'r Weithdrefn hon yn berthnasol i bob dysgwr ar yr holl raglenni ar draws y coleg, (heb gynnwys dysgwyr 14-16 Cyswllt Ysgolion), a'i bwriad yw hyrwyddo ymddygiadau cadarnhaol i ddysgwyr i gynnal llesiant a chynnig/ehangu cymorth. Mae gan y Coleg ddyletswydd gofal i ymateb yn briodol i sefyllfaoedd lle bo pryderon ynghylch naill ai gweithrediad corfforol neu emosiynol y dysgwr a'r effaith ar y dysgwr ac eraill.

2.2 Bydd y coleg yn defnyddio dull cyson a sensitif mewn sefyllfaoedd a all ddod yn anodd drwy weithio gyda'r dysgwr i sicrhau nad yw eu hastudiaethau'n gwaethygu unrhyw amod a allai olygu gweithio gyda'r Tîm Cynhwysiant i drosglwyddo i gwrs mwy addas neu ohirio astudio dros dro.

2.3 Mae'r polisi yn berthnasol i ddysgwyr Addysg Uwch lle nad oes gan bartneriaid prifysgol bolisi yn ei le.

2.4 Nid yw'r polisi hwn yn gysylltiedig ag addasrwydd i ymarfer. Mae gan raglenni proffesiynol penodol weithdrefnau addasrwydd i ymarfer sy'n gweithredu y tu allan i gwmpas y polisi hwn.

Lle bo pryder ynghylch addasrwydd i ymarfer, dim ond ar ôl i'r materion a nodwyd gael eu hystyried o dan y Weithdrefn Addasrwydd i Astudio yr eir i'r afael â hyn.

3. Prif Egwyddorion

3.1 Mae Addasrwydd i Astudio yn ymwneud â gallu unigolyn i ymgysylltu'n ddiogel ac yn foddhaol fel dysgwr, mewn perthynas â dysgu academiaidd, cymdeithasol, seiliedig ar waith, a gweithgarwch cyfoethogi tra yn y coleg. Gellir defnyddio'r Polisi hwn i gefnogi dysgwyr pan fyddant yn peri risg iddyn nhw eu hunain a/neu eraill. Bydd y Polisi yn cael ei ddefnyddio pan:

- Mae pryderon ynghylch addasrwydd dysgwr i astudio yn y Coleg ac oherwydd eu gallu, i fodloni canlyniadau dysgu'r cwrs, er gwaethaf addasiadau rhesymol.
- Mae effaith negyddol ar iechyd, diogelwch, llesiant a/neu ddysgu'r dysgwr a/neu eraill y maent yn dod i gysylltiad â nhw.

3.2 Bydd y Coleg yn gwneud penderfyniadau anfeirniadol/gwahaniaethol gan fod yn gyson ac yn sensitif, gyda'r lefel briodol o ymyrraeth. Gall y coleg gyfeirio unigolion at gymorth proffesiynol allanol ac efallai y gofynnir iddynt ddarparu cadarnhad ysgrifenedig mewn perthynas ag addasrwydd unigolyn i astudio.

3.3 Mae gan ddysgwyr sydd â chyflwr iechyd meddwl a/neu anabledd corfforol hawl i addasiadau rhesymol a chymorth priodol yn ymwneud â deddfwriaeth berthnasol e.e. Deddf Cydraddoldeb 2010, Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol ar gyfer Cymru 2018. Mae addasiadau rhesymol yn golygu sicrhau bod camau yn eu lle i sicrhau nad yw dysgwyr dan anfantais oherwydd eu hanabledd/anhawster neu anghenion ychwanegol.

3.4 Os bydd mesurau ymyrraeth gynnar yn cael eu rhoi ar waith a bod argymhellion ar gyfer cymorth yn cael eu dilyn, gellir osgoi sefyllfa o argyfwng.

3.5 Wrth benderfynu a ddylid cymryd camau o dan y polisi a'r weithdrefn hon, cyfeirir hefyd at y Polisiâu a'r Gweithdrefnau a ganlyn;

- Cod Ymddygiad Myfyrwyr
- Polisi Diogelu Data
- Amserlen Cadw Gwybodaeth
- Polisi Diogelwch Gwybodaeth (is-bolisi: Polisi Defnydd TG Derbyniol)
- Polisi a Gweithdrefnau Iechyd a Diogelwch
- Polisi Diogelu
- Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb

3.6 Yn unol â Safonau'r Gymraeg, bydd holl gyfarfodydd, gohebiaeth a gwasanaethau cymorth sy'n rhan o'r gweithdrefnau isod yn cael eu cynnig yn Gymraeg.

4. Cyfrifoldebau

4.1 Cyfrifoldeb y coleg yw sicrhau y bydd holl wybodaeth bersonol a sensitif yn cael ei rheoli yn unol â Deddf Diogelu Data Cyffredinol 2018 a chyfraith gyffredin cyfrinachedd. Mae'n bosibl y bydd adegau pan fydd yn rhaid i'r Coleg ddatgelu gwybodaeth, er gwaethaf y ffaith bod y dysgwr wedi gwrthod caniatâd, er enghraifft lle mae ymddygiad y dysgwr yn bygwth ei ddiogelwch ei hun/diogelwch eraill, byddai'r Coleg yn agored i atebolrwydd sifil neu droseddol am fetu â datgelu.

4.2 Os bydd unrhyw bryderon yn cael eu codi tra bod y dysgwr ar leoliad allanol, bydd y coleg yn trafod y pryderon hyn gyda darparwr y lleoliad a gellir gwneud trefniadau eraill i fynd i'r afael â'r pryderon a godwyd.

4.3 Os yw dysgwr wedi'i wahardd o'r coleg neu wedi'i gadw o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl, ni fydd yn cael mynd i mewn i unrhyw un o safleoedd y Coleg na chymryd rhan mewn unrhyw weithgareddau ar safle'r Coleg. Efallai y bydd amgylchiadau eithriadol a rhoddir caniatâd i fynd i gyfarfod, naill ai gyda gwasanaeth cymorth, i fynd i arolygiad neu sefyll arholiad. Rhoddir caniatâd yn ôl disgresiwn y Pennaeth Gwasanaethau Dysgwyr yn dilyn trafodaeth gyda'r Pennaeth Cynorthwyol perthnasol.

4.4 Lle bo dysgwr yn dychwelyd i'w hastudiaethau'n dilyn gwaharddiad, cyfrifoldeb yr Anogwr Cynnydd/Tiwtor Personol yw cynnal cyfarfodydd adolygu rheolaidd i fonitro a chefnogi cynllun gweithredu. Gall hyn fod ar gyfer rhan o gyfnod y dysgwr neu ei holl gyfnod sy'n weddill yn y Coleg. Bydd disgwyl i'r dysgwr gymryd rhan gadarnhaol yn y cyfarfodydd hyn.

5. Gweithdrefn Addasrwydd i Astudio

5.1 Gellir amau addasrwydd dysgwr i astudio am lawer o resymau ac mewn ystod eang o amgylchiadau. Mae'r rhain yn cynnwys (ond nid yn gyfyngedig i) y canlynol:

- Pryderon difrifol am y dysgwr o drydydd parti (h.y. ffrind, cydweithiwr, darparwr lleoliad gwaith, aelod o'r cyhoedd, gweithiwr meddygol proffesiynol ac ati.)
- Mae'r dysgwr wedi rhoi gwybod i aelod o staff a/neu wedi rhoi gwybodaeth sy'n dangos bod angen amau eu haddasrwydd i astudio.
- Mae natur y dysgwr yn golygu ei fod yn dangos y gall fod cyflwr sy'n cael effaith andwyol sylweddol ar eu hiechyd neu sy'n achosi anhawster i wneud addasiadau o natur resymol.
- Mae'r dysgwr yn arddangos ymddygiad, a fyddai fel arall yn cael ei drin fel mater o gamymddwyn, ond a allai fod o ganlyniad i broblem iechyd corfforol neu feddyliol sylfaenol.
- Nid yw perfformiad academiaidd neu ymddygiad corfforol y dysgwr yn dderbyniol a chredir bod hyn o ganlyniad i broblem iechyd corfforol neu feddyliol sylfaenol.

5.2 Mae gan y weithdrefn Addasrwydd i Astudio dri cham, ac yn dibynnu ar ddifrifoldeb y sefyllfa a difrifoldeb unrhyw risgiau canfyddedig, gellir cymryd camau gweithredu yn unrhyw un o'r tri cham.

Cam 1 - Pryder Cychwynnol

5.3 Bydd yr Anogwr Cynnydd/Tiwtor Personol, gyda chefnogaeth gan aelod o'r Tîm Gwasanaethau Myfyrwyr h.y. Swyddog Lles, yn trefnu cyfarfod i drafod natur benodol yr ymddygiad sydd wedi achosi'r pryderon cychwynnol ynghylch eu haddasrwydd i astudio. Dylid darparu gwybodaeth i'r dysgwyr am wasanaethau sydd ar gael h.y. Gwasanaethau Myfyrwyr, Caplaniaeth, Cwnsela, Anogwyr Gwytnwch. Bydd dysgwyr yn cael y cyfle i egluro eu barn bersonol am y mater, a chael eu hannog i ddefnyddio un neu ragor o'r gwasanaethau cymorth sy'n cael eu cynnig gan y coleg. Bydd yr Anogwr Cynnydd/Tiwtor Personol yn cyfarfod gyda'r dysgwr ar ôl pythefnos i sicrhau eu bod yn gwella.

5.4 Rhagwelir y gall y rhan fwyaf o achosion gael eu datrys yn y cam hwn. Rhaid i'r Anogwr Cynnydd/Tiwtor Personol nodi'r camau y cytunwyd arnynt ar gofnodion bugeiliol y dysgwyr gyda dyddiad adolygu. Yn yr adolygiad os bydd pryderon wedi'u hymdrin â nhw'n foddhaol, byddant yn cael eu nodi fel wedi'u datrys, fodd bynnag, os oes amgylchiadau lliniarol gellir cytuno ar gyfnod adolygu pellach. Os na fydd y pryderon wedi'u datrys bydd yr achos yn cynyddu i Gam 2 y weithdrefn hon.

Cam 2 - Pryder yn parhau

5.5 Lle bo pryder parhaus, bydd y dysgwr yn cael ei wahodd i gyfarfod â Chyfarwyddwr Cwricwlwm y maes astudio, a dylai'r cyfarfod gynnwys aelod o'r Tîm Gwasanaethau Myfyrwyr a/neu'r Tîm Cynhwysiant ar gyfer y maes hwnnw i drafod y mater. Gyda'i gilydd gallant bennu canfyddiad y dysgwr o effaith ei iechyd neu ymddygiad ac ystyried a yw'r dysgwr yn gallu cymryd rhan fel dysgwr, mewn perthynas ag astudiaethau academiaidd a bywyd yn gyffredinol yn y coleg ac a all unrhyw anghenion cymorth gael eu diwallu gan y Gwasanaethau cymorth y Coleg. Gellir cyflwyno tystiolaeth feddygol i'w hystyried.

5.6 Nid yw hwn yn benderfyniad 'meddygol' ond yn seiliedig ar adolygiad proffesiynol o'r holl dystiolaeth. Gall cynrychiolydd, rhiant/gwarcheidwad, aelod o'r teulu, ymarferydd iechyd neu weithiwr gofal/cymorth ddod gyda'r dysgwr i'r cyfarfod os oes angen.

5.7 Bydd Cynllun Gweithredu yn cael ei ddyfeisio i gefnogi'r dysgwr a chytuno'n ffurfiol ar ddisgwyliadau. Cedwir cofnod ffurfiol ac os yw'r dysgwr o dan 18 oed byddwn yn rhoi gwybod i rieni/gwarcheidwaid. Bydd y dysgwr yn cael gwybod am ganlyniadau methu â chydymffurfio â'r cynllun gweithredu, a allai ystyried symud i Gam 3 y Polisi Addasrwydd i Astudio.

Tystiolaeth Feddygol

5.8 Os bydd angen asesiad meddygol bydd aelod o'r Tîm Gwasanaethau Myfyrwyr yn cyfarfod â'r myfyriwr i egluro cefndir y cais ac i gael caniatâd ysgrifenedig y dysgwr. Mae'r Coleg yn cydnabod y bydd unrhyw wybodaeth o'r fath a ddatgelir yn "ddata sensitif" a fydd yn cael ei drin yn unol â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (2018). Os bydd y dysgwr yn gwrthod darparu gwybodaeth feddygol bydd y Coleg yn parhau â'r weithdrefn hon yn seiliedig ar yr holl wybodaeth sydd ganddynt eisoes. Bydd yr asesiad meddygol yn cael ei ddefnyddio i benderfynu ar y canlynol:

- natur a maint unrhyw gyflwr meddygol
- y prognosis
- i ba raddau y gall effeithio ar addasrwydd dysgwyr i astudio a rheoli gofynion bywyd coleg.
- unrhyw effaith y gallai ei chael neu risg y gallai ei achosi i eraill
- a ddylai'r Coleg gymryd unrhyw gamau ychwanegol yn sgil y cyflwr meddygol i alluogi'r dysgwr i astudio'n effeithiol
- a fydd y dysgwr yn cael unrhyw driniaeth neu gymorth meddygol parhaus

Cam 3 - Panel Adolygu Achos Addasrwydd i Astudio (Pryderon Uniongyrchol neu Barhaus)

5.9 Lle bo pryderon uniongyrchol, sylweddol neu gyson (a bod tystiolaeth glir o gamau gweithredu blaenorol sydd wedi'u cymryd) wedi codi am gamau gweithredu/yymddygiad a all roi iechyd, diogelwch, llesiant nhw eu hunain neu eraill mewn perygl, bydd cyfarfod Panel Adolygu Astudiaeth Achos yn cael ei alw gan Bennaeth y Gwasanaethau Dysgwyr i drafod.

5.10 Bydd y myfyriwr yn cael o leiaf 5 diwrnod o rybudd lle bo modd o'r cyfarfod Panel Addasrwydd i Astudio. Bydd y dysgwr yn cael gwybod am ddiben y gwrandawriad a chyn y cyfarfod, bydd yn cael unrhyw ddogfennau a fydd yn cael eu hystyried yn y cyfarfod. Hefyd bydd gofyn iddynt ddarparu unrhyw ddogfennaeth y maen nhw'n dymuno'r panel i'w hystyried.

5.11 Gall cynrychiolydd, rhiant/aelod o'r teulu, ymarferydd iechyd neu weithiwr gofal/cymorth ddod gyda'r dysgwr i'r cyfarfod os oes angen. Yn achos dysgwr sy'n cael gofal neu ddysgwr sydd â Chynllun Dysgu Unigol (CDU), bydd y Panel Addasrwydd i Astudio yn ymgynghori â'r Awdurdod Lleol.

5.12 Bydd y rhai a fydd yn bresennol yn cynnwys:-

- Pennaeth Cynorthwyo ar gyfer y maes cwricwlwm
- Anogwr Cynnydd/Tiwtor Personol
- Cydlynnydd Diogelu
- Ymarferydd Iechyd Meddwl

5.13 Diben y cyfarfod fydd ystyried y dystiolaeth sydd ar gael, gan gynnwys canfyddiad y dysgwr o'r pryderon sydd wedi'u nodi ac i ddod i benderfyniad ar y ffordd addas ymlaen.

5.13 Gall y cyfarfod Panel Adolygu Achos benderfynu ar:

- fonitro cynnydd y dysgwyr yn ffurfiol am gyfnod penodol o amser. Yn yr achos hwn, byddwn yn cytuno ar gynllun gweithredu gyda'r dysgwr. Bydd y cynllun gweithredu yn amlinellu unrhyw gamau y bydd angen i'r dysgwr eu cymryd a/neu unrhyw gymorth y cytunwyd arno gan y Coleg. Bydd y cynllun gweithredu hwn fel arfer yn manylu ar gamau gweithredu gwahanol i unrhyw gynllun y cytunwyd arno eisoes fel rhan o'r camau anffurfiol y mae'r gyfarwyddiaeth wedi'u cymryd. Bydd cyfarfodydd adolygu rheolaidd yn

cael eu trefnu gyda'r dysgwr a'r Anogwr Cynnydd/Tiwtor Personol i sicrhau bod y cynllun gweithredu'n cael ei ddilyn yn briodol a/neu fod cymorth rhesymol yn cael ei ddarparu.

- Bod newidiadau'n cael eu gwneud i drefniadau astudio'r dysgwyr am gyfnod penodol o amser a allai gynnwys newid o astudio amser llawn i astudio rhan-amser, a chyflwyno trefniadau academaidd arbennig am gyfnod penodol o amser.
- Lle bo'r dysgwr ar leoliad allanol, cynnig bod y dysgwr yn gohirio'r lleoliad.
- Mewn cytundeb â'r dysgwr, gwneud argymhellion y dylid gohirio eu hastudiaethau am gyfnod o amser y cytunir arno gan y ddwy ochr. Yn achos myfyriwr AU, unrhyw gyfnod o ryng-gymhwyso i'w ystyried yng nghyd-destun canllawiau SAU/Cyrff Dyfarnu partner.
- Rhoddir gwybod i'r dysgwr am y canlyniadau pe bai'r trefniadau hyn yn methu â datrys pryderon a nodwyd er boddhad y Coleg.

5.14 Os mai atal dros dro yw'r argymhelliad, yna bydd hyn yn digwydd ar unwaith a bydd y dysgwr yn cael gwybod yn ysgrifenedig o fewn 7 diwrnod i gyfarfod y Panel Adolygu Achos gan Bennaeth Gwasanaethau Dysgwyr. Bydd rhieni/gwarcheidwaid/asiantaethau allanol/cyflogwyr/awdurdodau lleol yn cael gwybod am hynny os yn briodol. Bydd unrhyw waharddiad yn destun adolygiad gyda thystiolaeth feddygol bosibl gan y dysgwr i'w hystyried. Cedwir cofnod ffurfiol ac os yw'r dysgwyr o dan 18 oed byddwn yn rhoi gwybod i rieni/gwarcheidwaid.

6. Gwaharddiad yn ystod Asesiad Addaswydd i Astudio

6.1 Mewn nifer fach iawn o amgylchiadau, efallai y byddwn yn penderfynu bod dysgwr yn peri risg uchel iawn iddo'i hun neu'r Coleg. O dan yr amgylchiadau hyn, gall y Dirprwy Brif Swyddog Gweithredol (Profiadau Pobl a Diwylliant) neu Ddeiliad Swydd Uwch arall awdurdodi atal myfyriwr dros dro tra bydd asesiad o'i addaswydd i astudio yn cael ei gynnal. Bydd unrhyw ddysgwr sydd wedi'i gadw dan y Ddeddf Lechyd Meddwl hefyd yn cael ei atgyfeirio i gael ei atal.

6.2 Ni chaniateir i ddysgwr sy'n destun ataliad o'i astudiaethau fynd i mewn i safleoedd y Coleg na chymryd rhan yn unrhyw un o weithgareddau'r Coleg. Gall yr ataliad dros dro, mewn amgylchiadau eithriadol, fod yn amodol ar amodau, megis caniatâd i sefyll arholiad neu i fynd i mewn i safle'r Coleg i fynd i gyfarfod gyda gwasanaeth cymorth, megis Cwnsela Myfyrwyr.

6.3 Bydd telerau'r ataliad dros dro yn unigol ar gyfer pob achos a byddwn yn ysgrifennu at y dysgwr i roi gwybod iddynt am hyn, gyda chopi o ohebiaeth o'r fath yn cael ei anfon at rieni/gofalwyr os yw'r myfyriwr o dan 18 oed. Byddwn yn marcio'r dysgwr fel 'addaswydd i astudio: ataliad dros dro' ar eu cofnod myfyrwyr yn ystod cyfnod yr ataliad. Bydd Panel Adolygu Achos cam 3 yn cael ei gynnull i ystyried unrhyw ddysgwr sydd wedi'i atal o dan y weithdrefn hon yn dychwelyd i astudio.

7. Apeliadau

7.1 Gall dysgwr apelio yn erbyn penderfyniad cyfarfod y Panel Adolygu Achos ar y seiliau canlynol:

- mae'r Coleg wedi methu â dilyn ei weithdrefn ei hun
- mae'r penderfyniad yn afresymol

- mae tystiolaeth bellach na ellid bod wedi disgwyl yn rhesymol iddi gael ei chyflwyno i'w hystyried gan y panel.

7.2 Dylai unrhyw gais am apêl nodi'r seiliau ar gyfer yr apêl a chael ei gyflwyno o fewn 10 diwrnod gwaith i'r hysbysiad ysgrifenedig i Ddirprwy Bennaeth y maes cwricwlwm. Bydd gwrandawriad apêl yn cael ei drefnu o fewn 10 diwrnod gwaith coleg o gael gwybod am gais am apêl.

7.3 Bydd y dysgwr yn cael o leiaf 5 diwrnod gwaith coleg o rybudd, o amser a lleoliad y cyfweiliad apêl a bydd ganddo'r hawl i ddod â ffrind/cydweithiwr/rhiant/gwarcheidwad/cynrychiolydd asiantaeth allanol gyda nhw.

7.4 Bydd penderfyniad yr Is-Bennaeth yn cael ei gadarnhau'n ysgrifenedig i'r dysgwr o fewn 5 diwrnod gwaith coleg. Bydd y penderfyniad a wneir yn derfynol ac ni fydd hawl bellach i apelio.

8. Monitro ac Adolygu

8.1 Bydd y polisi hwn yn cael ei fonitro a'i adolygu bob tair blynedd gan Bennaeth y Gwasanaethau Dysgwyr. Wrth fonitro effaith y weithdrefn hon, bydd y Coleg yn rhoi sylw dyledus i Bolisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y Coleg a'i Ddyletswydd Cydraddoldeb gyffredinol.